

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ymwneud â Gorchymyn Pysgota Môr (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) newydd 2019. Bydd Gorchymyn newydd 2019 yn diddymu Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Cymunedol) (Hysbysiadau Cosb) 2008 sy'n bodoli'n barod (O.S. 2008/984), sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynllun Cosbau Gweinyddol Ariannol (FAP) mewn perthynas â throeddau o dan Bolisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) yr UE yn unig. Mae Gorchymyn newydd 2019 yn cynnig ymestyn y cynllun FAP ar gyfer troeddau CFP er mwyn cynnwys troeddau pysgodfeydd domestig sy'n cael eu cyflawni yng Nghymru, drwy ddefnyddio pwerau sydd ar gael yn adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

Ar hyn o bryd, dydy nifer o gosbau sydd ar gael ar gyfer troeddau pysgodfeydd domestig yng Nghymru ddim mor eang â'r rheini ar gyfer troeddau o dan CFP. Bydd ychwanegu FAP at y gwahanol sancsiynau sydd ar gael yn cynnig ffordd arall o ddelio â throeddau pysgodfeydd domestig sy'n galw am fwy na rhybudd llafar neu ysgrifenedig, ond nad ydynt yn ddigon difrifol yn aml iawn – o safbwynt budd y cyhoedd – i gyfiawnhau erlyn yn y llys.

Byddai cyflwyno cynllun FAP estynedig Llywodraeth Cymru yn golygu bod modd delio â phob trosedd sy'n ymwneud â physgodfeydd yng Nghymru mewn ffordd hyblyg, gymesur a chyson. Byddai'n rhwystr hefyd i'r rheini sy'n ystyried torri rheoliadau pysgodfeydd domestig a/neu CFP. Byddai cyflwyno'r cynllun FAP estynedig hefyd yn sicrhau bod y broses o reoleiddio troeddau pysgodfeydd domestig yng Nghymru yn cyd-fynd â Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU.

Opsiwn – Gwneud dim

Ar hyn o bryd, pan fydd trosedd yn dod i'r amlwg, mae gan Swyddogion Gorfodi Morol dri opsiwn, ac mae'r rheini'n dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r drosedd:

- (i) **Rhoi rhybudd llafar** – Rhoddir rhybudd llafar am y fân drosedd gyntaf.
- (ii) **Rhoi rhybudd ysgrifenedig** – Rhybudd ysgrifenedig yw ail gam y broses ar gyfer rhywun sy'n cyflawni mân drosedd eto, neu rywun sy'n cyflawni trosedd ychydig yn fwy difrifol.
- (iii) **Symud ymlaen i erlyn** – Defnyddir yr opsiwn erlyn gyda'r troeddau mwyaf difrifol, neu ar gyfer y rheini sy'n troseddu dro ar ôl tro. Bydd ffeil achos yn cael ei llunio, a phenderfyniad yn cael ei wneud i fynd â'r troseddwr i'r llys. Mae'r broses hon yn gallu cymryd hyd at flwyddyn cyn i'r achos ddod gerbron Llys Ynadon. Mae hon yn broses gostus sy'n cymryd llawer iawn o amser.

Gwneud dim byd yw'r opsiwn sylfaenol, ac felly does dim buddion na chostau **ychwanegol** gyda'r opsiwn hwn. Mae'r pysgotwyr hynny sy'n gorfod mynd i'r llys yn wynebu costau o ran ffioedd cyfreithiol a cholli enillion, gan fod mynd i'r llys yn amharu ar eu gwaith pysgota. Mae hyd a lled y gwaith paratoi y mae'n rhaid ei wneud ar gyfer achosion llys yn dibynnu ar natur y drosedd.

Dydy'r system bresennol ddim yn cynnig unrhyw gymhellant i fod yn gynaliadwy. Yn ystod yr amser mae'n ei gymryd i achos symud ymlaen drwy'r llysoedd ar hyn o bryd, fe allai troseddwr barhau i aildroseddu yn ystod y cyfnod hwn.

Hefyd, mae rhai gweithgareddau pysgota anghyfreithlon yn cael effaith niweidiol ac uniongyrchol ar fywoliaeth cymunedau pysgota, drwy leihau'r stociau maen nhw'n ddibynnol arnynt. Gall hyn arwain at lai o sicrwydd economaidd mewn cymunedau sy'n dibynnu'n fawr ar bysgota fel ffynhonnell waith.

Mae **Tabl 1** yn dangos nifer yr achosion o dorri rheolau y mae Llywodraeth Cymru wedi dod ar eu traws ers 2008, ac sydd wedi arwain at rybudd ysgrifenedig neu erlyniad.

Tabl 1: Nifer yr erlyniadau a'r rhybuddion ysgrifenedig a roddwyd yng Nghymru, 2008-2017

Nifer yr erlyniadau a'r rhybuddion ysgrifenedig a roddwyd i bysgotwyr gan Lywodraeth Cymru		
Blwyddyn	Rhybuddion Ysgrifenedig Swyddogol	Erlyniadau
2017	1	11
2016	7	0
2015	3	3
2014	5	6
2013	5	3
2012	1	6
2011	5	7
2010	2	11
2009	6	0
2008	2	3

Ni fyddai budd o gwbl i'r opsiwn hwn o ran gwella'r mesurau rheoli a gorfodi wrth warchod stociau pysgod a'r amgylchedd. Ni fydd yn arwain at fwy o gydymffurfio â rheoliadau pysgodfeydd, nac at lai o aildroseddu.

Opsiwn 2 – Cyflwyno system o Gosbau Gweinyddol Ariannol ar gyfer mân droseddau domestig yn ymwneud â physgodfeydd

Mae'r opsiwn hwn yn cynnwys cyflwyno system o Gosbau Gweinyddol Ariannol (FAP) ar gyfer troseddau pysgodfeydd domestig, gan ddefnyddio pwerau sydd ar gael o dan Adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Byddai hyn yn efelychu ac yn ategu'r cynllun FAP presennol ar gyfer troseddau CFP, gan arwain at system gyson a thryloyw o sancsiynau am bob trosedd sy'n ymwneud â physgodfeydd. Byddai hefyd yn sicrhau bod pysgodfeydd Cymru yn cyd-fynd â Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU.

Byddai'r opsiwn hwn yn gadael i Brif Swyddog Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru gyflwyno FAP i ddelio â rhai troseddau pysgodfeydd yn gyflym ac yn effeithiol, heb orfod troi at erlyniad troseddol. Fodd bynnag, ni fyddai'n cael gwared â'r opsiwn o gael gwrandawriad llys, naill ai ar gais y pysgotwr neu'r adran pysgodfeydd. Yn yr un modd, byddai Swyddogion Gorfodi Morol yn dal yn gallu rhoi rhybuddion llafar ac ysgrifenedig am fân droseddau.

Cost i fusnesau

Bydd y cynigion hyn yn effeithio ar bob pysgotwr sy'n cyflawni troseddau perthnasol sy'n ymwneud â physgodfeydd. Ni fydd unrhyw effaith ar y busnesau/pysgotwyr hynny sy'n dal i gadw at y gyfraith.

Mae'n bosib y bydd y pysgotwyr hynny sy'n dewis anwybyddu'r rheoliadau perthnasol yn gweld eu costau'n cynyddu, yn lleihau, neu na fydd eu costau'n newid. Bydd hyn yn dibynnu ar amgylchiadau a difrifoldeb eu hachos. Mae'n anodd rhag-weld ar hyn o bryd faint o Gosbau Gweinyddol Ariannol fydd yn cael eu rhoi, na faint o achosion llys fydd yn cael eu cynnal bob blwyddyn. Fodd bynnag, ar sail nifer bresennol yr erlyniadau a'r rhybuddion ysgrifenedig (Tabl 1), ni ddisgwylir i'r niferoedd hyn fod yn fawr iawn.

Efallai y bydd cynnydd yng nghostau pysgotwyr sy'n euog o dorri mân reolau domestig ac a fyddai, fel arfer, yn disgwyl cael Rhybudd Ysgrifenedig Swyddogol am droseddau nad ydynt yn cael eu hystyried yn ddigon difrifol i gyfiawnhau erlyniad troseddol drwy'r llysoedd. Fodd bynnag, o dan y drefn newydd, mae'n bosib y byddan nhw'n gymwys i gael FAP a fydd yn amrywio o £250 i £4,000, gyda £10,000 fel y gosb uchaf. Bydd hyn yn dibynnu ar y drosedd a'r amgylchiadau. Os byddai'r troseddwr yn derbyn y gosb, byddai ganddo 28 diwrnod i dalu'r FAP yn llawn. Os na fydd yn talu o fewn y cyfnod hwn, bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at y llysoedd yn awtomatig.

O ran y pysgotwyr sy'n troseddu ac yn cael eu herlyn drwy'r llysoedd ar hyn o bryd, ond a allai gael FAP yn lle hynny yn y dyfodol, mae'n bosib y byddai'r pysgotwyr hynny'n arbed costau. Mae costau llys yn amrywio ac yn dibynnu ar y math o drosedd sydd wedi'i chyflawni. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r troseddwr yn colli enillion yn sgil gorfod mynd i'r llys, a byddai'n rhaid iddo dalu ffioedd cyfreithiol hefyd. Os byddai'r llys yn ei ddyfarnu'n euog, mae'n bosib y byddai'n rhaid i'r troseddwr dalu dirwy a chostau, a gwneud taliad ychwanegol i'r dioddefwr. Byddai gan y troseddwr gofnod troseddol hefyd. Fe allai'r troseddwr hefyd gollu ei drwydded i bysgota mewn ardal benodol neu am rywogaeth benodol, a bydd hynny eto yn effeithio ar ei allu i ennill bywoliaeth.

Mewn achosion mwy difrifol, bydd troseddwr yn dal i gael eu herlyn drwy'r llysoedd. Yn y sefyllfa hon, ni ddisgwylir unrhyw newid o ran y costau y bydd y busnes neu'r corff gorfodi yn eu hysgwyddo.

Cost i'r Llywodraeth

Adran y Môr a Physgodfeydd Llywodraeth Cymru fydd yn gweinyddu'r cynlluniau, a bydd yr adran yn parhau i gyflawni ei gweithgareddau gorfodi fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Bydd Swyddogion Gorfodi Morol yn ymchwilio i droseddau a amheuir ac yn casglu tystiolaeth ar eu cyfer, ac yn cyflwyno'r dystiolaeth honno i'r Prif Swyddog Pysgodfeydd gydag argymhelliad i roi hysbysiad cosb pan fydd yn briodol, ac os oes ganddyn nhw dystiolaeth bod rhywun wedi cyflawni trosedd berthnasol sy'n ymwneud â physgodfeydd.

Nid oes disgwyl y bydd angen unrhyw hyfforddiant ychwanegol ar Swyddogion Gorfodi Morol, gan eu bod yn gallu rhoi FAP yn barod ar gyfer troseddau CFP yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd llunio Nodiadau Cyfarwyddyd i swyddogion a'r cyhoedd yn arwain at gostau ychwanegol. Disgwylir i'r gost hon fod yn bur fach, gan y bydd nodiadau cyfarwyddyd sy'n bodoli'n barod ar gyfer system debyg yn Lloegr yn cael eu haddasu i gynnwys deddfwriaeth Cymru. Byddai'r Nodiadau Cyfarwyddyd yn cael eu hargraffu'n fewnol hefyd, gan leihau'r gost wirioneddol o'u llunio.

Budd i'r diwydiant pysgota

Wrth gymharu ag erlyn drwy'r llysoedd, byddai FAP yn cyflymu'r gweithdrefnau ar gyfer delio ag achosion o dorri rheolau domestig, ac yn lleihau'r baich gweinyddol a chostau cynrychiolaeth gyfreithiol i bysgotwyr nad ydynt yn cydymffurfio. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- Lleihau'r amser sy'n cael ei golli wrth ymddangos yn y llys
- Lleihau costau cyfreithiwr drwy osgoi ymddangos yn y llys
- Lleihau costau o ran y dirwyon y byddai'n rhaid i droseddwr eu talu i'r llys os byddai'n cael ei ddyfarnu'n euog
- Byddai achosion a fyddai wedi cael eu cyfeirio at y llysoedd o'r blaen yn cael eu dirwyn i ben yn gyflymach

Byddai'r system yn sicrhau mwy o unffurdedd o ran y cosbau a roddir am droseddau tebyg ar gyfer yr holl droseddau pysgodfeydd. Felly, byddai'n cael gwared â'r ansicrwydd a ddaw yn sgil yr amrywiaethau ehangach o gosbau a roddir gan wahanol Lysoedd Ynadon.

Mae Tabl 2 isod yn dangos enghreifftiau o gostau erlyn y mae pysgotwyr yn eu hwynebu ar hyn o bryd am dorri rheoliadau pysgodfeydd cenedlaethol. Dim ond enghreifftiau yw'r amcangyfrifon hyn. Ar hyn o bryd, nid yw'n bosib cynnwys amcangyfrifon cywir o'r arbedion i bysgotwyr yn sgil yr opsiwn polisi hwn.

Tabl 2: Enghreifftiau o gostau erlyn

Blwyddyn y Gwrandawriad Llys	Dirwyon Erlyn (£)	Costau Erlyn (£)
2017	12,621	9,269

2016	101,907	23,105
2015	4,000	2,000
2014	76,355	17,411
2013	4,250	2,495
2012	97,750	23,700
2011	63,000	5,414
2010	48,000	5,887
2009	2,440	1,100
2008	26,000	2,473

Yn ogystal ag arbedion posib i'r diwydiant, mae budd anariannol yn bosib hefyd, sef bod troseddwr yn gallu osgoi'r stigma o gael cofnod troseddol drwy dderbyn FAP yn hytrach na mynd i'r llys.

Disgwylir y bydd cyflwyno FAP am droseddau domestig yn helpu i rwystro gweithgareddau pysgota anghyfreithlon, gan helpu i sicrhau chwarae teg i fusnesau/pysgotwyr sydd yn cydymffurfio.

Buddion i'r Llywodraeth

Mae'r gallu i reoli arferion pysgota yn effeithiol yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd morol. Disgwylir y bydd y system FAP yn arwain at fwy o gydymffurfio â rheoliadau pysgodfeydd.

Daw troseddwr posib i ddeall y bydd cyflwyno cosbau'n syth – yn hytrach na rhybuddion (llafar ac ysgrifenedig) ac erlyniadau troseddol – yn delio'n gyflymach ag achosion o dorri rheolau pysgodfeydd. Dylai hyn arwain at fwy o gydymffurfio â'r holl reoliadau pysgodfeydd a chadwraeth, a gwarchod stociau pysgodfeydd yn sgil hynny, yn enwedig y rheini sydd â mesurau adfer stoc.

Disgwylir y bydd FAP hefyd yn cynnig ffordd fwy effeithiol i Swyddogion Gorfodi Morol ddelio ag achosion penodol o dorri rheolau. Wrth i FAP gael eu cyflwyno, byddai Swyddogion Gorfodi Morol yn dal yn gorfod cwblhau ffeil achos iawn, ac felly ni fyddai'n arbed amser swyddogion yn uniongyrchol (edrychwch ar tabl 3). Fodd bynnag, os gwneir penderfyniad i gynnig FAP yn hytrach na mynd i'r llys, byddai hyn yn lleihau'r angen i Swyddogion Gorfodi Morol dreulio mwy o amser ar achosion llys.

Os bydd achos yn symud ymlaen i'r llys, bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru dalu ffioedd cyfreithwyr allanol yr erlyniad. Os bydd diffynnydd yn cael ei ddyfarnu'n euog, bydd Ynadon yn dyfarnu costau erlyn yn aml iawn. Fodd bynnag, oherwydd natur a difrifoldeb rhai troseddau, does dim sicrwydd y bydd Ynadon yn dyfarnu costau llawn. Os byddai Cosbau Gweinyddol Ariannol yn cael eu cyflwyno yn lle mynd i'r llys, gallai hynny arbed y gost hon i Lywodraeth Cymru.

Tabl 3: Amcangyfrif o gostau'r camau gorfodi presennol:

Math o dorri rheolau	Oriau	Amcangyfrif o gyfanswm y gost
Lefel isel	2-5	+£200
Lefel ganolog	10-20	+ £3,000

Lefel uchel	30 +	+ £8,000
-------------	------	----------

Yn olaf, byddai cyflwyno FAP yn sicrhau bod y broses orfodi ar gyfer troseddau pysgodfeydd yn cyd-fynd â Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU.

Crynodeb o'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio

Yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yw cyflwyno system o FAP ar gyfer troseddau pysgodfeydd domestig, gan gynnwys isdroseddau pysgodfeydd y glannau, gan ddefnyddio pwerau sydd ar gael o dan Adran 294 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009. Bydd hyn yn rhoi adnodd ychwanegol i Swyddogion Gorfodi Morol ddelio â throseddau pysgodfeydd yn brydlon ac yn gymesur.

Asesiad o'r Gystadleuaeth

Prawf hidlo'r gystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ✓ neu ✗
C1: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?	✗
C2: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy nag 20% yn y farchnad?	✗
C3: Yn y farchnad neu'r marchnadoedd y bydd y rheoliad newydd yn effeithio arnyn nhw, oes gan y tri chwmni mwyaf, gyda'i gilydd, gyfran o 50% o leiaf yn y farchnad?	✗
C4: Fyddai'r costau rheoleiddio'n cael llawer mwy o effaith ar rai cwmnïau na'i gilydd?	✗
C5: Ydy'r broses reoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?	✗
C6: Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau sefydlu i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	✗
C7: Fyddai'r broses reoleiddio'n arwain at fwy o gostau parhaus i gyflenwyr newydd neu gyflenwyr posib, a'r rheini'n gostau nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	✗
C8: A yw hwn yn sector sy'n gweld newidiadau technolegol cyflym?	✗

Prawf hidlo'r gystadleuaeth

Cwestiwn	Ateb ✓ neu ✗
C9: Fyddai'r broses reoleiddio'n cyfyngu gallu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynnyrch?	✗

Ni ddisgwylir y bydd y Rheoliadau'n effeithio ar gystadleuaeth yng Nghymru, nac ar allu busnesau yng Nghymru i gystadlu.